# Cyngor Adnewyddu'r Economi

## Dangosyddion Economaidd

## Cefndir

1. Ym mis Ebrill, ysgrifennodd y Gweinidog Cyllid at ACau i ddweud ei bod wedi gofyn i'r Prif Economegydd a'r Prif Ystadegydd adolygu'r data (economaidd) sydd ar gael ar hyn o bryd ac ystyried pa wybodaeth a allai gael ei chreu yn y dyfodol i wella ein dealltwriaeth o economi Cymru a chryfhau'r sail tystiolaeth ar gyfer llunio polisïau.

2. Mae'r adolygiad hwn bron â dod i ben ac adroddiad drafft wedi'i baratoi.

## Ystyriaethau a chasgliadau sy'n dod i'r amlwg

### *Mae angen basged o ddangosyddion lefel uchel i fonitro'r economi*

3. Mae'r Prif Economegydd a'r Prif Ystadegydd yn ystyried y byddai'n fuddiol datblygu a chyhoeddi basged fechan o ddangosyddion i fonitro perfformiad economi Cymru mewn modd cytbwys sy'n osgoi canolbwyntio'n ormodol ar un agwedd benodol. Byddai'r elfennau yn y fasged yn cynnwys y dangosyddion canlynol:

   - Incwm Aelwydydd Crynswth i'w Wario (GDHI) y pen
   - Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC) y pen
   - Cyfradd gyflogaeth
   - Enillion cyfartalog
   - Cyfraddau tlodi
   - Cyfoeth y pen

4. Mae angen basged o ddangosyddion gan nad oes un dangosydd unigol yn darparu darlun cynhwysfawr. Mae nifer o gyfyngiadau i GYC y pen, er enghraifft, er bod llawer o sôn amdano. Er enghraifft, mae lefel y boblogaeth ddibynnol (sy'n uchel yng Nghymru), a chymudo ar rai lefelau daearyddol yn dylanwadu arno. Gall newidiadau yn GYC y pen adlewyrchu newidiadau mewn strwythur economaidd yn hytrach na'r incwm a enillir gan bobl Cymru.

5. Am y rheswm hwn, a rhesymau eraill nid yw'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn defnyddio GYC y pen wrth gymharu perfformiad economaidd rhanbarthol. Fodd bynnag, yng nghyd-destun Cymru, mae'r defnydd o GYC y pen i bennu cymhwysedd ar gyfer arian o Ewrop, a'i broffil uchel cysylltiedig, yn golygu y dylid rhoi lle iddo o hyd.

6. Mae'r dewis o ddangosyddion i'w cynnwys yn y fasged yn adeiladu ar y dull a fabwysiadwyd eisoes yn "Perfformiad ar gyfer Llywodraethu"

7. Ac eithrio'r gyfradd gyflogaeth a chyfoeth y pen, mae'r dangosyddion ar gael ar sail flynyddol ar hyn o bryd. (Mae'r gyfradd gyflogaeth i'w chael bob

chwarter, ac yn cael ei diweddaru bob mis, ac mae cyfoeth y pen ar gael yn llai aml ar hyn o bryd).

***Mae darparu dangosydd chwarterol o GYC am gost isel yn ymarferol, ond mae'r achos dros ddangosydd o'r fath yn llai cryf nag y byddai llawer yn ei dybio.***

8. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cynhyrchu dangosyddion allbwn chwarterol sy'n cwmpasu'r rhan fwyaf o'r sector preifat yng Nghymru – mynegeion tymor byr cynhyrchu, adeiladu a gwasanaethau[1].

9. Mae rhai sylwebyddion a defnyddwyr ystadegau wedi datgan cefnogaeth i ddatblygu mesurau GYC chwarterol i Gymru. Byddai hyn yn gofyn am gynhyrchu mynegeion i gwmpasu gweddill yr economi o leiaf (amaethyddiaeth a llywodraeth yn bennaf).

10. Fodd bynnag, mae'r gwaith hyd yn hyn wedi nodi cyfyngiadau allweddol yn gysylltiedig â dangosydd amserol iawn o GYC.

11. Yn gyntaf, fel y nodwyd uchod, mae asesu perfformiad economaidd yn gofyn am gyfeirio at fasged o ddangosyddion. Gall cynhyrchu GYC chwarterol roi sylw gormodol o'r newydd ar y mesur unigol hwn.

12. Yn ail, mae ysgogiadau polisi Llywodraeth Cymru yn gweithredu dros y tymor hirach yn bennaf. Lle bo'n briodol ymateb i newidiadau tymor byr mewn amgylchiadau economaidd, efallai y bydd gwybodaeth am y farchnad lafur yn fwy perthnasol na GYC.

13. Yn drydydd, mae yna faterion cysyniadol ac ystadegol gwirioneddol yn gysylltiedig â datblygu model GYC cadarn fel y rhai sy'n gysylltiedig â materion yn ymwneud â dosrannu mentrau ledled y DU a llifau economaidd ar draws y ffin.

14. Yn olaf, byddai mesur GYC bob chwarter yng Nghymru bron yn siŵr o fod yn anwadal ac yn gofyn am ddiwygio helaeth, yn rhannol oherwydd y rhesymau a eglurwyd uchod ond hefyd gan mai dyma natur dangosyddion byrdymor, hyd yn oed ar lefel y DU. Ychydig o werth, felly, fyddai hyn o ran rhoi darlun clir o ddatblygiadau economaidd.

15. O ran cyd-destun, dangosodd dadansoddiad o ddiwygiadau a wnaed gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol i GYC chwarterol y DU ar gyfer y cyfnod 2000-09 bod diwygiadau yn 0.3 pwynt canran ar gyfartaledd mewn perthynas â newid oedd yn 0.6 pwynt canran ar gyfartaledd. Mae yna arwyddion bod y diwygiadau i ddangosydd yr Alban o GYC chwarterol gryn dipyn yn fwy. Nid yw hyn yn syndod gan ei bod hi'n anoddach mesur cynnydd mewn GYC wrth i'r gyfradd ofodol leihau. Am y rheswm hwn, mae'r diwygiadau i GYC chwarterol Cymru yn debygol o fod yn fwy.

[1] https://statscymru.cymru.gov.uk/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/Economic-Indices

16. Mae maint tebygol y diwygiadau yn codi cwestiwn ynghylch gwerth dangosydd GYC chwarterol i Gymru fel adnodd ar gyfer datblygu polisi a monitro perfformiad economaidd byrdymor (ac efallai y bydd pryderon tebyg yn berthnasol hefyd yn sgil y cysylltiad â'r dangosyddion allbwn byrdymor cyfredol).

17. Mae'r heriau o gynhyrchu dangosydd GYC chwarterol dibynadwy ac amserol yn egluro, yn rhannol pam, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw weinyddiaeth ddatganoledig neu debyg mewn gwledydd eraill (yn cynnwys rhai â chyfansoddiad ffederal) wedi cynhyrchu ystadegau o'r fath yn gyson ac eithrio'r Alban a Gogledd Iwerddon o bosibl.

18. Fodd bynnag, yn sgil diddordeb gan randdeiliaid, gwnaed rhagor o waith mewn partneriaeth â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i gynhyrchu amcangyfrifon o gostau gynhyrchu dangosydd GYC chwarterol.

19. Mae yna amryw o opsiynau ar gyfer cynhyrchu dangosydd GYC chwarterol. Byddai dibynadwyedd y dangosydd yn ymwneud â'r costau cysylltiedig, ond nid yw'n bosibl mesur y gyfatebiaeth ar hyn o bryd. Fodd bynnag, byddai diffyg gofyniad polisi sylweddol yn ei gwneud hi'n anodd i gyfiawnhau opsiynau drutach ar hyn o bryd, yn enwedig o ystyried y cyd-destun ariannol. Byddai datblygu GYC llawn a fframwaith cyflenwi-defnyddio fel y gwnaed yn yr Alban yn gofyn am lawer iawn o adnoddau ac arian. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn amcangyfrif y gallai hyn yn costio dros £1 miliwn y flwyddyn, ond byddai angen gwneud rhagor o waith i gael amcangyfrif manylach.

20. O ran yr opsiwn a fyddai'n costio leiaf, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn amcangyfrif mai ychydig iawn o gostau ychwanegol fyddai ar ben y rhai sy'n gysylltiedig â chynhyrchu'r dangosyddion allbwn byrdymor cyfredol. Felly, os yw'r dangosyddion byrdymor cyfredol i barhau, mae yna achos dros ymestyn eu cwmpas er mwyn gallu cynhyrchu dangosydd GYC chwarterol i fodloni diddordeb rhanddeiliaid. Er mai ychydig o werth uniongyrchol sydd iddynt o bosibl, mae yna ddadl y byddai hyn yn darparu llwyfan ar gyfer model aeddfetach yn y dyfodol.

***Mae caffael pwerau newydd yn golygu bod angen adolygu'r gofynion am ddata a dadansoddi yn gyson.***

21. Pan fydd Llywodraeth Cymru'n cael pwerau newydd, dylid parhau i adolygu'r gofynion cysylltiedig am ddata a dadansoddi, yn cynnwys y gyfres o ddangosyddion a restrir uchod.

22. I weithredu pwerau trethu yn effeithiol bydd angen defnyddio modelau ac adnoddau dadansoddi eraill i ragweld refeniw ac asesu effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

23. Fodd bynnag, nid yw'n glir a fydd y tasgau hyn yn gofyn hefyd am ddatblygu model amlbwrpas o'r economi gyffredinol yng Nghymru yn hytrach na modelu a ddatblygir ar gyfer dibenion dadansoddol penodol.

24. Pan ystyriwyd y mater hwn yn fanwl ychydig dros ddegawd yn ôl gan arbenigwyr annibynnol, y cyngor oedd na fyddai canlyniadau model amlbwrpas yn debygol o fod yn ddigon cadarn i gefnogi datblygiad polisi. Fodd bynnag, mae datblygiadau mewn methodoleg modelu'n golygu bod angen gwneud rhagor o waith i ystyried a yw'r casgliad hwn yn parhau i fod yn ddilys, yn enwedig o ystyried y cyd-destun y polisi ar ei newydd wedd.

25. Serch hynny, mae integreiddiad agos yr economi yng Nghymru gydag economi gweddill y DU yn gwneud modelu economaidd yn dasg a hanner, ac nid yw hanes modelau o'r fath yn dda, hyd yn oed mewn amgylchiadau mwy ffafriol.

26. Cam allweddol o ddatblygu model o'r economi yng Nghymru fyddai sicrhau y cyhoeddir tablau o gyflenwad a defnydd (neu "mewnbwn-allbwn") yn rheolaidd ar gyfer Cymru. Mae adolygiad cychwynnol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol i Lywodraeth Cymru wedi cyfeirio at yr heriau mawr o ran creu tablau cyflenwad a defnydd cadarn i Gymru, a'r gost sylweddol bosibl.

**Y camau nesaf**

27. Ar sail y dadansoddiad a grynhowyd uchod, dyma argymhellion y Prif Economegydd a'r Prif Ystadegydd:

   A. Byddai'n fuddiol datblygu a chyhoeddi basged fechan o ddangosyddion i fonitro perfformiad economi Cymru mewn modd cytbwys gan osgoi canolbwyntio'n ormodol ar unrhyw agwedd benodol.
   B. Nid oes unrhyw ofyniad polisi i gael dangosydd GYC chwarterol i Gymru, sy'n debygol o gael ei ddiwygio'n helaeth beth bynnag. Fodd bynnag, byddai'r opsiwn isaf o ran costau ar gyfer datblygu dangosydd o'r fath yn arwain at ychydig mwy o gostau, a dylai'r penderfyniad terfynol adlewyrchu barn rhanddeiliiad.
   C. Dylai'r gofynion ar gyfer data ac adnoddau dadansoddi pellach gael eu hadolygu'n gyson wrth i Lywodraeth Cymru gael pwerau newydd. Yn arbennig, mae angen gwneud rhagor o waith ymchwil i weld a yw datblygiadau ym maes modelu economaidd yn awgrymu y dylid diwygio'r casgliad cynharach bod datblygu model amlbwrpas o economi Cymru yn annhebyg o fod yn gost-effeithiol.

28. Gwahoddir Aelodau'r Cyngor i roi barn ar yr argymhellion hyn.